# Prif pwyntiau o’r sesiwn hyfforddiant

Panel Diogelu Cydenwadol
Interdenominational Safeguarding Panel

## Crynodeb o'r Sesiwn:

Arweiniwyd y sesiwn gan Julie Edwards - Swyddog Diogelu a Hyfforddiant y Panel Diogelu Cydenwadol a'r swyddog diogelu dynodedig ar gyfer tri enwad.
Nodwyd pwysigrwydd creu diwylliant iach o fewn yr eglwys gan gynnwys tryloywder, dysgu gwersi o'r gorffennol a pheidio byth ag anwybyddu na chuddio pryderon. Roedd y sesiwn yn trafod ein polisi a gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys recriwtio gwirfoddolwyr yn fwy diogel, egwyddorion arfer da, arwyddion a dangosyddion cam-drin ac esgeulustod a, sut i ymateb i bryderon gan gynnwys ymateb yn dda i oroeswyr / dioddefwyr. Gall diogelu fod yn bwnc anodd i rai ac mae cymorth pellach ar gael.

Gwnaethom edrych ar bwysigrwydd gallu adnabod arwyddion o gamdriniaeth ac esgeulustod ymhlith plant ac oedolion agored i niwed gan fod yna llawer o rwystrau i unigolyn ddatgelu camdriniaeth ei hun. Mae gan aelodau o’r eglwys rôl bwysig o ran diogelu ac maent mewn sefyllfa dda i sylwi ar newidiadau mewn unigolion oherwydd eu perthynas agos o fewn y gymuned. Mae'n bwysig peidio byth ag addo cadw cam-drin yn gyfrinach, i beidio byth ag ymchwilio na thrafod materion gyda'r cyhuddedig.

**GAFODD PAWB EU HANNOG I BEIDIO AG OEDI CYN GOFYN AM HELP.**

## Y camau nesaf...

Faint o'r blychau isod allwch chi dicio?

- ☐ Ydych chi wedi edrych ar y llawlyfr diogelu a'r llyfryn gwybodaeth hyfforddiant?
- ☐ Ydych chi wedi cwblhau'r cwrs e-ddysgu a argymhellir gan Gofal Cymdeithasol Cymru?
- ☐ Ydych chi wedi ymgyfarwyddo â'r adrannau arfer da perthnasol yn y llawlyfr neu lyfryn creu eglwys fwy diogel? Ydych chi wedi adolygu'r arwyddion a symptomau cam-drin? Mae hyn yn adran 3 o'r llawlyfr i blant ac adran 4 i oedolion neu dudalennau melyn yng nghanol llyfryn y cwrs.
- ☐ Ydy'r datganiad polisi diogelu yn cael ei arddangos yn eich eglwys?
- ☐ Ydy eich Eglwys wedi cynnal hunan-asesiad diogelu gan ddefnyddio'r rhestr wirio Atodiad 10
- ☐ Ydych chi'n barod i roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu i swyddfa'r Panel.
- ☐ Beth am annog eich Eglwys i gymryd rhan mewn Sul Diogelu ym mis Tachwedd neu unrhyw ddydd Sul arall i godi ymwybyddiaeth o ddiogelu ?

**Diogelu Grwpiau Bregus**: Gwnaethom edrych ar y diffiniad o ddiogelu sef adnabod arwyddion a symptomau cam-drin, darparu gweithgareddau diogel a gofal priodol. Yn ystod y degawd diwethaf bu newid o bolisïau amddiffyn plant i ddull diogelu ehangach sy'n cynnwys oedolion agored i niwed ac sy'n cynnwys gamau ataliol ac arfer da. Buom yn trafod y diffiniad o fregus/ wynebu niwed, gyda ffactorau fel anabledd, oedran, dementia, diffyg capasiti, arferion sefydliadol gwael, a ffactorau pan nad yw gofalwyr yn gallu amddiffyn plant neu oedolion o dan eu gofal. Gwnaethom edrych ar ddiffiniadau ffurfiol plentyn ac oedolyn agored i niwed (Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.)

**Diogelu mewn Eglwysi**: Gwnaethom edrych ar rai ffactorau sy'n creu eglwys fwy diogel, gan gynnwys penodi cydlynydd diogelu ac ymddiriedolwr diogelu, tryloywder, ac ystiried pwy sy’n bregus. Gwnaethom bwysleisio pwysigrwydd arfer da, gan gynnwys asesiadau risg, ffurflenni cydsyniad priodol, a sicrhau bod gwirfoddolwyr wedi cael gwiriadau DBS. Mae angen i wirfoddolwyr yn yr eglwys cyd-weithio fel tîm i sicrhau gweithgareddau mor ddiogel â phosibl gan gynnwys datblygu canllawiau clir, osod a deall ffiniau priodol ar gyfer y gweithgareddau a sut ydyn yn ymwneud â phobl yn ein gofal gan gynnwys cyfathrebu â phlant a phobl ifanc ar-lein. Gall y Panel gynorthwyo gydag asesiadau risg a chymorth a chyngor diogelu eraill.

**Polisi Diogelu**: Y Llawlyfr Diogelu Grwpiau Bregus yw polisi a gweithdrefnau diogelu'r eglwys. Gweler hefyd ein gweithdrefnau ymateb yn dda i oroeswyr. Mae'n cynnwys adrannau ar recriwtio mwy diogel, plant a phobl ifanc, oedolion bregus, a gofal bugeiliol yn ogystal ag adnoddau a gwybodaeth ychwanegol yn yr atodiadau a'r ffurflenni. Gwnaethom edrych yn fras ar bwysigrwydd recriwtio mwy diogel, gan bwysleisio bod hyn yn fwy na gwiriadau DBS yn unig. Mae’n cynnwys gofyn y cwestiynau cywir mewn ffurflen cais a chynnal gwiriadau cefndir trylwyr i sicrhau ein bod wedi gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod y bobl fwyaf agored i niwed yn ein heglwysi mewn dwylo diogel. Mae'r Panel wedi cynhyrchu adnoddau i helpu gyda'r broses hon gan gynnwys ffurflenni priodol , cod ymddygiad i wirfoddolwyr (atodiad 2a) a chanllawiau ar gyfer arferion gwaith diogel (atodiad 2).

**Adnabod arwyddion o gam-drin ac esgeulustod a sut i ymateb**: Roedd ail hanner y sesiwn yn canolbwyntio ar adnabod arwyddion o gam-drin. Mae'n hanfodol weithiau i **ddychmygu'r annychmygol** a symud y tu hwnt i'r rhagdybiaeth bod cam-drin fel arfer gan ddieithriaid, nid rhywun sy'n hysbys i ni. Gallai cam-drinniwr fod yn unrhyw un ac, yn fwyaf cyffredin, mae’r dioddefwr yn nabod y cyflawnwr camdriniaeth e.e. teulu, ffrindiau neu rai mewn awdurdod. Mae yna wahanol fathau o gamdriniaeth gan gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, emosiynol, ariannol a sefydliadol ac mae is-gategorïau o gam-drin hefyd. Esgeulustod yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin ac mae'n golygu methiant parhaus i ddiwallu anghenion sylfaenol unigolyn. Mae angen i ni fod yn barod i ymateb a gweithredu os ydym yn sylwi neu amau camdriniaeth neu niwed. Mi fydd hyn yn cynnwys ceisio cefnogaeth gan y Panel neu'r gwasanaeth y tu allan i oriau gan thirtyone:eight neu gysylltu â’r heddlu neu ambiwlans mewn argyfwng. Mae'r siart llif hwn yn rhoi arweiniad cam wrth gam ar sut i ymateb i bryderon.